

LEAD

YMWYBYDDIAETH AMGYLCHEDDOL LEOL AR GŴN

Gadewch i ni weithio
gyda'n gilydd i fod yn
berchnogion cŵn cyfrifol.

Safer Caerphilly County Borough
Bwrdeistref Sirol Caerffili Saffach



2663_01



ARWAIN Y FFORDD GYDA CHŴN

Mae Ymwbyddiaeth

Amgylcheddol Leol ar Gŵn –

LEAD® – yn fenter a arweinir gan yr heddlu a sefydlwyd ym Mwrdeistref Sutton yn Ne Orllewin Llundain i annog perchnogaeth cŵn cyfrifol ar bob brîd o gi. Rydyn ni wedi mabwysiadu'r fenter yma ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd Partneriaeth Diogelwch Cymuned Caerffili Saffach yn ymateb fel partneriaeth unedig wrth roi'r fenter ar waith yn ein cymunedau, gan sicrhau ei bod yn addas ar gyfer ein cymunedau a'u hanghenion lleol.

Mae LEAD yn ceisio rhoi cyngor i'r cyhoedd ar faterion yn ymwneud â chŵn, gwella diogelwch cŵn a lles cŵn. Mae hefyd yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anystyriol gan unigolion â chŵn mewn ffordd sy'n amddiffyn a thawelu meddwl y cyhoedd. Mae wedi'i anelu at holl berchnogion cŵn yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili, boed mewn llety preifat neu lety rhent. Mae'r gwaith yma'n cael ei hyrwyddo drwy ymgysylltu â pherchnogion cŵn yn ystod patrolau rheolaidd a thrwy gyswllt beunyddiol â pherchnogion cŵn sy'n dod i sylw'r heddlu.

Mae'r fenter yn cael cefnogaeth gan yr holl bartneriaid Diogelwch Cymunedol gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i, yr Heddlu, yr awdurdod lleol, landlordiaid cymunedol, y Bwrdd Iechyd, y Gwasanaeth Tân, a'r trydydd sector. Mae pob un ohonynt yn cydweithio'n agos i gefnogi a

hyrwyddo gwaith LEAD.

Cwblhawyd arolwg lleol a amlygodd gŵn niwsans a chŵn oddi ar eu tennyn fel meysydd a oedd yn peri pryder ymhlith trigolion yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili – a nod LEAD yw mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

GWEITHIO GYDA PHERCHNOGION CŴN

Rydym yn:

- cofnodi pob digwyddiad yn ymwneud ag ymddygiad negyddol gan gŵn, gan gynnwys ymosodiadau gan gŵn ar bobl ac anifeiliaid; lles cŵn a baw cŵn. Mae hyn yn bwysig er mwyn creu hanes wedi'i ddogfennu pe bai angen cymryd camau gorfodi.
- annog perchnogion (os ydynt yn byw mewn tŷ cymdeithasol) i gofrestru eu ci gyda'u landlord

PAN FYDD ANGEN YMYRRAETH GAN YR HEDDLU

Yn ogystal ag annog perchnogaeth cŵn cyfrifol a rhoi cyngor, mae yna adegau pan fydd angen i'r heddlu ymyrryd, rhoi mesurau rheoli ar waith ac, yn y pen draw, erlyn troseddwy.

Byddwn yn ymyrryd pan fydd:

- perchnogion yn defnyddio cŵn i gyflawni trosedd
- cŵn yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- mathau / bridiau gwaharddedig yn dod i sylw.



MESURAU RHEOLI, SANCSIYNAU A DEDDFWRIAETH

Byddwn yn gweithredu i orfodi'r gyfraith ac amddiffyn y cyhoedd pryd bynnag y bo angen a lle bo deddfwriaeth yn caniatáu. Mae'r mesurau'n cynnwys:

Llythyr rhybudd cyntaf

Bydd hwn yn cynnwys prif fanylion y digwyddiad – manylion a gaiff eu rhannu â phartneriaid perthnasol. Anfonir llythyrau gyda llenyddiaeth ategol.

Llythyr rhybudd terfynol

Os daw ymddygiad y ci i sylw eto, bydd ail lythyr yn cael ei ddosbarthu â llaw gan y Tîm Plismona Cymdogaeth Lleol. Ar y cam yma bydd perchennog y ci yn cael cyfle i dderbyn cynnig o gwrs addysgol i wella ei ddealltwriaeth o berchnogaeth cŵn cyfrifol. Os yw perchennog y ci yn ddeiliad contract gyda landlord cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, bydd y wybodaeth am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei rannu gyda'r holl bartneriaid perthnasol. Gallai hyn arwain at gamau gweithredu yn eu herbyn. Gallai ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus arwain at dynnu yn ôl y caniatâd i fod â chi neu hyd yn oed at adfeddiannu'r eiddo.

Cytundeb Ymddygiad Derbyniol

Os derbynnir mwy o adroddiadau,

o fewn 6 mis i'r llythyr rhybudd terfynol bydd perchennog y ci yn cael ei gyfeirio'n awtomatig ar y Grŵp Ymyrraeth 'Strike 3'. Mae'r grŵp yma'n cael ei gynrychioli gan bob asiantaeth partner allweddol sy'n ymdrin ag achosion parhaus o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r grŵp craidd yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: yr Heddlu, landlordiaid cymunedol, diogelwch cymunedol, addysg, y Gwasanaeth Troseddau leuenctid, y Gwasanaeth leuenctid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn y cyfarfod yma bydd eich achos a'r digwyddiadau cysylltiedig â'ch ymddygiad yn cael eu trafod. Os yw Cadeirydd y Grŵp Ymyrraeth 'Strike 3' o'r farn bod eich ymddygiad yn gyfystyr ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus byddwch yn cael cynnig Cytundeb Ymddygiad Derbyniol.

Mae Cytundebau Ymddygiad Derbyniol yn gytundebau gwirfoddol rhwng Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach a'r unigolyn. Os caiff ei wrthod, bydd y Tîm Plismona Cymdogaeth yn monitro ymddygiad y ci am 6 mis.

Gorfodi

Yn dilyn mwy o adroddiadau o fewn 6 mis bydd perchennog y ci yn cael ei gyfeirio at y Grŵp 'Strike 4'. Mae pawb sy'n mynd i gyfarfod Grŵp 'Strike 3' yn mynd i'r cyfarfod yma, yn ogystal â Gwasanaethau Cyfreithiol.

Yn y cyfarfod yma bydd eich achos yn cael ei adolygu ac os bernir



bod hynny'n briodol bydd eich achos yn cael ei atgyfeirio ar gyfer camau gorfodi. Gallai camau o'r fath gynnwys Gorchymyn Dinistrio Amodol ar gollfarn o dan y Ddeddf Cŵn Peryglus neu Orchymyn Rheoli, Ddeddf Cŵn 1871 neu amrywiaeth o gamau gorfodi a gynhwysir yn y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Trosedd a Phlisma 2014:

- Rhybudd / Hysbysiad Amddiffyn Cymunedol
- Gwaharddeb Ymddygiad Troseddol
- Gorchymyn cau

Sylwer y gellir ceisio'r mesurau uchod ar unrhyw adeg yn ystod y broses

Gorchymynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus

Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw hybu perchnogaeth cŵn cyfrifol a lleihau cwynion am broblemau cysylltiedig â chŵn, fel baeddu.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus mewn cysylltiad â chwe throsedd, sef:

- Gwahardd cŵn o bob ardal chwarae i blant ac ardaloedd gemau aml-ddefnydd caeedig.
- Mynnu bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn mewn gerddi cofio caeedig.
- Mynnu bod perchnogion cŵn yn cael gwared a baw cŵn mewn mannau cyhoeddus.
- Mynnu bod gan berchnogion cŵn fagiau baw cŵn ac ati i godi'r baw mae eu cŵn yn ei

gynhyrchu (hynny yw ei bod yn bosibl iddynt godi baw eu cŵn bob amser)

- Mynnu bod perchnogion cŵn yn rhoi eu cŵn ar dennyn pan fo swyddog awdurdodedig yn gofyn iddynt wneud hynny ar unrhyw dir cyhoeddus lle'r ystyrir bod y ci allan o reolaeth neu'n achosi niwed neu ofid er mwyn atal niwsans
- Gwahardd cŵn o gaeau / ardaloedd chwaraeon wedi'u marcio

I gael rhagor o wybodaeth am Orchymynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ewch i wefan y Cyngor.





PAM Y DECHREUWYD LEAD

Dechreuwyd LEAD ar ôl i gi ymosod ar fenyw a'i lladd yn Sutton ym mis Rhagfyr 2010. Aeth yr heddlu yn Sutton ati i weithio gyda sefydliadau partner allweddol i lansio meter LEAD fel dull strwythuredig a chydgyssylltiedig i annog perchnogaeth cŵn cyfrifol.

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach wedi cydnabod bod angen y fenter hon yn ein hardal ni ac er mwyn i LEAD weithio'n effeithiol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili bod angen i ni addasu'r fenter i ymgorffori'r ffordd rydym yn gweithio yng Nghymru a sicrhau ffocws ar Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'n bwysig i ni ein bod yn gallu ymgorffori ymrwymiad gan bob asiantaeth i sicrhau bod y fenter yn flaenoriaeth i bob un ohonom ni.

CYFLAWNIADAU LEAD

Mae LEAD wedi'i gydnabod yn genedlaethol fel yr arfer gorau ar gyfer hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol o bob brîd o gi, gan fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anystyriol gan unigolion â chŵn mewn ffordd sy'n diogelu'r cyhoedd ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Mae LEAD wedi cael ei gymeradwyo gan y Kennel Club a'i gefnogi gan elusennau mawr, gan gynnwys yr RSPCA a Chartref Cŵn Battersea. Defnyddiwyd LEAD fel astudiaeth achos gan Adran

yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar gyfer ei Llawlyfr Ymarferwyr newydd "Ymdrin â Pherchnogaeth Cŵn Anghyfrifol" sy'n cyd-fynd â Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma (Hydref 2014).

PWY I GYSYLLTU Â NHW

- Ffoniwch eich awdurdod lleol am gŵn swnllyd, baeddu gan gŵn, bridio anghyfreithlon neu gŵn crwydr.
- Ffoniwch Heddlu Gwent ar 101 neu anfonwch neges atom ni ar Facebook am fridiau anghyfreithlon, brwydrau cŵn wedi'u trefnu, cŵn peryglus neu ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda chŵn.
- Mewn argyfwng ffoniwch 999 bob tro.
- Ffoniwch eich landlord am gŵn niwsans neu ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda chŵn yn eich llety â thenant neu lesddaliad (mae hyn yn cynnwys pob landlord cymunedol a deiliaid contract)
- Ffoniwch yr RSPCA ar 0300 1234 999 am bryderon ynghylch iechyd a lles cŵn.

HELPWCH NI I WNEUD GWENT YN FWY DIOGEL

Trwy weithio gyda'n gilydd a rhannu gwybodaeth a phrofiadau, rydym am wneud ein cymunedau yn fwy diogel i bawb eu mwynhau.

